

# Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Lowri Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad: lowri.williams@cyg-wlc.cymru

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Plis eglurwch eich ateb**

Dim sylw.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Plis eglurwch eich ateb**

Dim sylw. Nid ydym yn caffael gofal cymdeithasol.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Plis eglurwch eich ateb**

Nid ydym yn gweithio'n agos â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fedru barnu bod eu dyluniad a'u strwythur yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Fodd

bynag, rydym yn bryderus nad yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyd yn cyflawni yn unol â'r disgwyliad o safbwynt y Gymraeg. Rydym yn manylu ar hynny yn ein hateb i gwestiwn 7 isod.

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 4a- Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?**

Nid ydym yn comisiynu gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag hoffem wneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r bwriad o sefydlu fframwaith cenedlaethol:

- Nid dewis yw derbyn gwasanaethau iechyd a gofal i lawer ond yn hytrach mae'n fater o angen ac o raid. Rydym hefyd yn credu bod peidio â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno eu derbyn yn y Gymraeg yn golygu bod diffyg yn ansawdd y gofal y mae'r unigolyn hwnnw yn ei dderbyn. Gallasai hynny effeithio'n andwyol ar yr unigolyn. Ar hyn o bryd nid yw pob unigolyn sydd angen gwasanaethau cymdeithasol yn y Gymraeg yn eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod prinder gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nodir yn y ddogfen ymgynghori mai bwriad fframwaith cenedlaethol fyddai 'pennu'r telerau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth – drwy ddatblygu set o arferion comisiynu cyffredin ac amrywiaeth o fethodolegau ffioedd y bydd yn ofynnol i gomisiynwyr eu defnyddio yn ôl y gyfraith, gan symleiddio caffael a sicrhau bod safonau gwasanaeth yn fwy amlwg'.<sup>1</sup> Bwriad hynny yw gwella ansawdd y gwasanaethau y bydd pobl yn eu derbyn. Rydym yn gweld y byddai creu fframwaith cenedlaethol o'r fath, petai'n cynnwys gofynion penodol a chenedlaethol o safbwynt darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn un ffordd o sicrhau bod o leiaf gwaelodlin o ddisgwyliadau ynghylch darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bodoli yn genedlaethol. Gallasai hynny o bosibl yn ei dro arwain at wella ansawdd y gwasanaethau y bydd siaradwyr Cymraeg yn eu derbyn. Wrth gwrs, buasem yn disgwyl y byddai gwaith caffael rhanbarthol a lleol yn ychwanegu at hynny drwy adlewyrchu anghenion mwy penodol a lleol yr ardaloedd hynny gan gynnwys anghenion penodol siaradwyr Cymraeg. Buasem yn croesawu trafodaeth bellach ynghylch hyn wrth i'r fframwaith gael ei lunio.
- Mae rhan 2, 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Er ein bod yn deall y bwriad sydd wrth wraidd creu'r fframwaith

<sup>1</sup> Tudalen 35

cenedlaethol rydym yn credu bod risg y byddai fframwaith o'r fath yn milwrio yn erbyn mentrau llai a lleol o'r math yma oherwydd yr arbedion maint y byddai modd i ddarparwyr mwy eu gwneud er mwyn cyd-fynd â disgwyliadau'r fframwaith. Mae hyn yn bryder inni oherwydd credwn bod posibiladau amlwg o ddatblygu mentrau cymdeithasol a chydweithredol sydd â'r bwriad o lenwi'r bwlch presennol mewn gwasanaethau cymdeithasol yn y Gymraeg. Byddai hyn yn fodd o gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg drwy greu amodau gweithio a gweithleoedd Cymraeg a llenwi bwlch amlwg mewn gwasanaethau cymdeithasol yn y Gymraeg. Rydym yn eich annog i ystyried sut gellir lliniaru'r sgil effaith posibl hwn.

**Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?**

**Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?**

Dim sylw.

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai?**

Nid oes gennym safbwynt ynghylch p'un a ddylid sefydlu swyddfa genedlaethol ai peidio. Er hynny, hoffem nodi'r canlynol:

- Os sefydlir swyddfa genedlaethol sydd hyd braich oddi wrth y Llywodraeth bydd rhaid sicrhau o'r dechrau y bydd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai rhaid i hynny fod yn ystyriaeth yn y broses o lunio'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Petai bwriad i ddatblygu swyddogaeth o fewn y Llywodraeth rydym yn rhagdybio y byddai'n gweithredu yn unol â hysbysiad cydymffurfio Llywodraeth Cymru. Fe'ch anogwn i drafod y materion hyn gydag Isadran y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru.

- Ar dudalennau 35-36 y ddogfen ymgynghori amlinellir gweithgareddau arfaethedig y swyddfa genedlaethol ac eglurir y bydd yn:
  - cadw golwg gyffredinol ar sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol
  - yn sail ar gyfer sbarduno mentrau polisi cenedlaethol
  - yn atgyfnerthu gweithgarwch rhai fforymau cenedlaethol
  - bydd yn gyfrifol am gefnogi gwaith ymchwil i ofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau yng Nghymru
  - bod polisi cenedlaethol a bennir gan y swyddfa genedlaethol yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o heriau darparu.

Fe'ch anogwn i gynnwys gofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau Cymraeg fel elfen ganolog o weithgareddau'r swyddfa genedlaethol drwy brif-ffrydio hynny i'r amcanion uchod a thrwy sicrhau ei fod yn un o gyfrifoldebau craidd bwrdd cynghori'r swyddfa genedlaethol.

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?**

Nid oes gennym farn am swyddogaethau eraill a fyddai'n cryfhau integreiddio rhanbarthol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, hoffem nodi'r sylwadau isod ynghylch y Byrddau a bwriadau'r papur gwyn mewn perthynas â hwy:

- Rydym wedi nodi mewn ymgynghoriadau blaenorol ein bod yn bryderus nad yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau sydd arnynt yn Neddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r codau ymarfer cysylltiedig o safbwynt y Gymraeg. Yn benodol rydym wedi tynnu sylw at ddiffyg ystyriaeth cyffredinol i'r Gymraeg yn nifer o'r asesiadau o'r boblogaeth a'r cynlluniau ardal sy'n deillio ohonynt. Yn ei dro felly gan nad ydym yn hyderus bod asesiadau trylwyr o anghenion siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarthau rydym yn bryderus nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yng ngweithgareddau ehangach y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Edrychwn ymlaen at drafod â swyddogion y Llywodraeth sut y gellir rhoi rhagor o arweiniad i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried y Gymraeg yn yr asesiadau o'r boblogaeth a gynhelir yn 2022.
- Mater cysylltiedig yw ein hansicrwydd ynghylch atebolrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o safbwynt y Gymraeg. Maent yn cynnwys aelodau o nifer o gyrff y mae disgwyl iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fodd bynnag, nid yw'r Byrddau eu hunain yn gorfod cydymffurfio â safonau ac nid yw'n glir inni sut yn ymarferol y mae disgwyliadau'r safonau yn cael eu gweithredu gan y Byrddau. Mae'n bosibl wrth

gwrs bod y diffyg atebolrwydd hwn yn cyfrannu at y diffyg ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg er nad oes modd inni brofi hynny.

- Os bydd y Byrddau yn cael eu sefydlu fel endidau statudol byddem yn disgwyl y byddai gofyn iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Golyga hyn y byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau llunio polisi a fyddai'n golygu bod rhaid iddynt ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n bosibl y byddai hynny yn mynd beth o'r ffordd at wella'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg. Fodd bynnag, o ystyried gofynion presennol Deddf Gwasanaethau Cymdeithas a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r Gymraeg mae'n siom cyn lleied yw'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg gan y rhan fwyaf o'r Byrddau. Buasem yn eich annog i sicrhau bod deddfwriaeth bellach a fyddai'n deillio o'r papur gwyn hwn yn tanlinellu ac yn hwyluso gweithredu'r egwyddor o bwysigrwydd darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Rydym yn amheus, oherwydd tystiolaeth<sup>2</sup> sydd gennym am ofal dementia yn arbennig, fod gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru yn cael eu cynllunio a'u darparu'n addas o dan y drefn bresennol. Credwn bod gwireddu hyn i raddau yn dibynnu ar gynllunio gofalus ar sail adnabyddiaeth o anghenion penodol y boblogaeth yn lleol. Nid yw'n eglur inni o'r ddogfen ymgynghori sut y byddai cynllunio a chomisiynu rhanbarthol, a darparu lleol, yn ymarferol yn mynd i'r afael â'r broblem hon oherwydd bod angen yr adnabyddiaeth leol hon o anghenion i fedru gwneud penderfyniadau penodol ynghylch y math o ofal sydd ei angen ar unigolion yn lleol. Rydym eisoes wedi mynegi pryder ynghylch yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd. Felly oni fydd disgwyliadau llawer uwch arnynt o safbwynt y Gymraeg, rydym yn ofni na fyddai rhoi rhagor o bwerau iddynt a'u gwneud yn gyrrff statudol yn gwella'r sefyllfa hon.

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?**

Byddai'n rhesymol meddwl bod defnyddio data mewn amser real yn ddoeth o ystyried bod newidiadau cymdeithasol nad oes modd cynllunio ar eu cyfer yn gallu digwydd yn bur sydyn, gyda sgil effeithiau Covid-19 yn un enghraifft amlwg wrth gwrs. Rydym wedi pwysleisio eisoes mewn ymgynghoriadau eraill bod angen gwell gwybodaeth a data am anghenion ieithyddol y boblogaeth a sgiliau ieithyddol y gweithlu iechyd a

<sup>22</sup> Gweler [Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia](#) gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'n hadroddiad ni ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru ar [Ofal Dementia Siaradwyr Cymraeg](#).

gofal. Dylid edrych o'r newydd ar ba ddata sy'n cael ei gasglu am anghenion a sgiliau yn y Gymraeg. Dylid edrych hefyd ar ba ddata sy'n cael ei ddefnyddio (os o gwbl) i gynllunio gwasanaethau cymdeithasol yn y Gymraeg ledled Cymru ar hyn o bryd. Ar sail hynny mae angen sicrhau bod cyfarwyddyd pellach yn cael ei roi i'r holl bartneriaid sydd ynghlwm wrth gasglu a defnyddio data am y boblogaeth a'r gweithlu. Byddai'n cynnwys cyfarwyddyd am y math o ddata y dylid ei gasglu o hyn allan; sut y dylid ei ddefnyddio i gynllunio gweithlu a gwasanaethau'r presennol a'r dyfodol, yn ogystal â chaffael gwasanaethau. Rydym wedi cyfrannu at waith o dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth ddata ar gyfer gofal cymdeithasol<sup>3</sup> a mawr obeithiwn y bydd y strategaeth hon yn mynd i'r afael â'r bylchau amlwg hyn mewn data am y Gymraeg.

**Cwestiwn 9:** A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?**

Dim ond mewn un man yn y ddogfen ymgynghori y cyfeirir at brinder gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wrth gwrs yn falch bod cyfeiriad at y Gymraeg ond mae'n siom nad yw'r ddadl dros newid yn ymdrin ymhellach â'r problemau sydd wrth wraidd y diffygion yn y gwasanaethau hynny. Rydym yn gweld bod angen gwir newid i fynd i'r afael â'r bwch amlwg hwn yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag gan nad yw'r her wedi ei amlygu o safbwynt y Gymraeg, mae'n bryder gennym nad yw'r cynlluniau a arfaethir wedi'u seilio ar ymateb i'r her hwnnw ac mae'n anodd inni farnu ai dyma'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem hon. Gweler ein hymateb i gwestiwn 11 isod yn ogystal.

**Cwestiwn 10:** Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno <input checked="" type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---------------------------------	--	---	---	------------------------------------

**Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?**  
Dim sylw.

**Y Gymraeg**

<sup>3</sup> [Ymagwedd strategol at ddata | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

**Cwestiwn 11: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

Fel yr amlygwn yn ein hateb i gwestiwn 8 uchod prin iawn yw'r ymdriniaeth yn y ddogfen ymgynghori ag effaith y newidiadau arfaethedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dim ond un cyfeiriad sydd yno at y Gymraeg. O ganlyniad i safonau'r Gymraeg byddem yn disgwyl y byddai'r ddogfen ymgynghori hon yn pwysu a mesur effaith y cynigion ar y Gymraeg a hynny oherwydd y gofyn sydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau llunio polisi<sup>4</sup> yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dyma nodi rhai materion perthnasol i'r ymgynghoriad y gofynnwn ichi eu hystyried:

Nid dewis yw derbyn gwasanaethau gofal i lawer ond yn hytrach mae'n fater o angen ac o raid. Mae Llywodraeth Cymru yn tanlinellu hyn yn fframwaith *Mwy na geiriau*<sup>5</sup> ac yn gosod camau yn eu lle i geisio sicrhau hynny. Mae safonau'r Gymraeg hefyd yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol sy'n golygu bod angen iddynt ganfod a yw unigolion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'u llesiant. Rhaid iddynt ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gynnal y cyfarfodydd yn Gymraeg yn ddibynnol ar y safonau a osodwyd arnynt yn eu hysbysiadau cydymffurfio.<sup>6</sup> Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn cadarnhau 'Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen' fel un o'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol ac yn cynnwys cyfarwyddyd ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Credwn bod angen ichi ystyried ymhellach effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar wasanaethau Cymraeg a phennu wedyn a ydynt yn addas o safbwynt y Gymraeg cyn ichi fwrw ati i lunio deddfwriaeth ddrafft.

Rydym wedi tynnu sylw yn ein hatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad hwn at yr effeithiau posibl gan nodi:

### **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

1. Rydym yn bryderus nad yw anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn ddigonol gan yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd.
2. Rydym yn bryderus ynghylch atebolrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o safbwynt y Gymraeg yn ogystal. Mae'n bosibl mai canlyniad y diffyg atebolrwydd hwnnw yw'r diffygion cyffredinol a welir yn yr asesiadau o'r boblogaeth o safbwynt y Gymraeg.

<sup>4</sup> Gweler safonau 88-93, <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/2/made/welsh>

<sup>5</sup> [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>6</sup> Gweler safonau 24-26. <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh>

3. Petai'r Byrddau yn cael eu sefydlu fel endidau statudol byddai gofyn iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod trefn ar gyfer galluogi hynny wrth lunio'r ddeddfwriaeth. Yn ddiweddar rydym wedi gweld nifer o achosion o gyrff newydd yn cael eu creu neu rhai anstatudol yn troi yn statudol heb ystyriaeth ddigonol ar gychwyn y broses i sut y byddant yn cydymffurfio â safonau. Awgrymwn y dylech drafod y mater hwn ag Isadran y Gymraeg.
4. Ein gobaith yw y byddai eu dwyn o dan y safonau yn mynd beth o'r ffordd at wella'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yng ngwaith y Byrddau yn sgil y safonau llunio polisi. Mae modd i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio i enghreifftiau o dorri safonau unai drwy dderbyn cynwys gan achwynydd neu gychwyn ymchwiliad ei hun os yw'n pryderu bod achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â safonau.
5. Er hynny, credwn bod angen rhoi rhagor o ddisgwyliadau ar y Byrddau o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg. Buasem yn dymuno y byddai'r ddeddfwriaeth a fyddai'n deillio o'r papur gwyn hwn yn hwyluso gweithredu'r egwyddor o ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl lle bynnag y bônt yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys rhoi rhagor o gyfarwyddyd i'r Byrddau o safbwynt y disgwyliadau sydd arnynt i adlewyrchu gofynion ieithyddol poblogaeth y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu, boed hynny wrth gaffael neu ymgymryd â swyddogaethau eraill cysylltiedig.

### **Fframwaith Cenedlaethol**

6. Petai'n cynnwys gofynion penodol a chenedlaethol o safbwynt darparu gwasanaethau yn y Gymraeg mae'n bosibl y byddai creu fframwaith cenedlaethol yn un ffordd o sicrhau bod o leiaf gwaelodlin o ddisgwyliadau ynghylch darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bodoli yn genedlaethol. Gallasai hynny yn ei dro o bosibl arwain at wella ansawdd y gwasanaethau y bydd siaradwyr Cymraeg yn eu derbyn.
7. Er ein bod yn deall y bwriad sydd wrth wraidd creu'r fframwaith cenedlaethol rydym yn credu bod risg y byddai fframwaith o'r fath yn milwrio yn erbyn mentrau llai a lleol oherwydd yr arbedion maint y byddai modd i ddarparwyr mwy eu gwneud er mwyn cyd-fynd â disgwyliadau'r fframwaith. Mae hyn yn bryder inni oherwydd credwn bod posibiladau amlwg o ddatblygu mentrau cymdeithasol a chydweithredol sydd â'r bwriad o lenwi'r bwlch presennol mewn gwasanaethau cymdeithasol yn y Gymraeg.

### **Swyddfa Genedlaethol**

8. Os sefydlir swyddfa genedlaethol sydd hyd braich oddi wrth y Llywodraeth bydd rhaid sicrhau y bydd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o'r dechrau. Rhaid i hynny fod yn ystyriaeth yn y broses o lunio'r ddeddfwriaeth fyddai'n deillio o'r papur gwyn hwn. Eto, fel y nodwn yn 3 isod rhaid ystyried sut y gwneir hyn yn ystod y broses o lunio'r ddeddfwriaeth. Awgrymwn y dylid trafod hyn ag Isadran y Gymraeg.
9. Fe'ch anogwn i gynnwys gofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau Cymraeg fel elfen ganolog o weithgareddau'r swyddfa genedlaethol drwy brif-ffrydio hynny i amcanion y sefydliad a thrwy sicrhau ei fod yn un o gyfrifoldebau



craidd bwrdd cynghori'r swyddfa genedlaethol. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth gysylltiedig â sefydlu'r Swyddfa.

### **Comisiynu rhanbarthol**

10. Nid yw'n eglur inni o'r ddogfen ymgynghori sut y byddai cynllunio a chomisiynu rhanbarthol, a darparu lleol, yn ymarferol yn mynd i'r afael â'r broblem o ddiffyg gwasanaethau Cymraeg. Credwn bod angen yr adnabyddiaeth leol o anghenion i fedru gwneud penderfyniadau ynghylch y math o ofal sydd ei angen ar unigolion yn lleol. Buasem yn croesawu rhagor o eglurder am sut y byddai'r drefn hon yn gweithio o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r sawl sydd eu hangen.

### **Data**

11. Rydym yn bryderus nad oes digon o ddata am y gweithlu ac anghenion y boblogaeth ar hyn o bryd i fedru cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu Cymraeg yn ddigonol. Mae angen adnabod pa ddata y mae angen ei gasglu o'r newydd a phennu dull o'i ddefnyddio drwy Gymru gyfan er mwyn cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu Cymraeg. Mae'n bosibl y byddai modd mynd i'r afael â hyn yn y deddfwriaeth fyddai'n deillio o'r papur gwyn os bydd yn cynnwys rhagor o gyfarwyddyd ynghylch defnyddio data.

**Cwestiwn 12: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Gweler ein sylwadau uchod yng nghwestiwn 11 lle rydym yn cynnig nifer o bwyntiau y dymunwn ichi eu hystyried fyddai'n cael effaith mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Dylem bwysleisio fodd bynnag mai ein disgwyliad yw bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn llawn sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg a bod gwella'r gwasanaethau hynny yn ystyriaeth hollbwysig wrth lunio polisiau a deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y papur gwyn hwn.

**Darperir y blwch hwn ar gyfer unrhyw sylw arall/sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y cynnig i ddatblygu deddfwriaeth newydd. Rhowch eich sylwadau yma:**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: